

Ysgol Gynradd Garth

Wrecsam

“Mae llawer o ymwelwyr yn ein llongyfarch ni ar yr awyrgylch hapus a thawel sy'n yr ysgol, ac rwy'n credu y gall y Cyngor Ysgol gymryd y clod am hynny.”
Sylvia Clough

Sefydlwyd Cyngor Ysgol Gynradd Garth yn 2003, ac mae wedi profi ei bod yn bosibl cyflawni unrhyw beth os ydych chi'n harneisio egni, brwdfrydedd a chreadigrwydd eich disgyblion drwy Gyngor Ysgol.

Cynhyrchodd y Cyngor fanifesto oedd yn sefydlu hawliau'r disgyblion, yn annog cyfranogiad gweithredol, yn gosod safonau ymddygiad a lefel uchel o hunan-reoleiddio rhwng y disgyblion. Newidiodd awyrgylch yr ysgol dros nos. Cafwyd lleihad dramatig mewn problemau disgyblaeth, a datblygodd ethos mwy gofalgwr o gwmpas yr ysgol.

Mae'r ffordd y mae'r Cyngor wedi ysbrydoli'r plant a'r bobl ifanc i sefydlu prosiectau llwyddiannus i wella'r ysgol wedi bod yr un mor drawiadol. Gan ddangos gwaith tîm arbennig a sgiliau entrepreneuriaidd, maen nhw wedi sefydlu digwyddiadau codi arian a chysylltiadau â busnesau lleol i dalu am welliannau i diroedd yr ysgol – gan ennill Dyfarniad Ysgolion lach yn y broses. Maen nhw wedi sefydlu ardal chwarae newydd ac wedi adeiladu ystafell ddosbarth allanol i'w defnyddio gan glybiau'r ysgol.



“Mae helpu i wneud ein hysgol yn lle braf yn hwyl. Rydyn ni'n dod o hyd i ffyrdd i godi arian i dalu am bethau newydd.”

Enw cyswllt: Sylvia Clough

Ffôn: 01978 820582

Ebost: mailbox@garth-pri.wrexham.sch.uk

Cynrychiolydd ifanc
ar y Cyngor Ysgol